



MA Diwinyddiaeth, Gweinidogaeth, a Chenhadaeth

www.stpadarns.ac.uk/cy/MADiwinyddieth

Mewn Partneriaeth â Common Awards Prifysgol Durham



YNGHYLCH PADARN SANT

Athrofa Padarn Sant ydy adain hyfforddi'r Eglwys yng Nghymru. Ei nod yw chwarae rhan mewn galluogi ac ysgogi pobl Duw ar draws y byd i rannu Cariad trawsnewidiol Duw.

ASTUDIO'R MA MEWN DIWINYDDIAETH, GWEINIDOGAETH, A CHENHADAETH

Wrth astudio'r MA mewn Diwinyddiaeth, Cenhadaeth a Gweinidogaeth bydd yn rhoi cyfle i chi ymchwilio i ddysgeidiaeth a thraddodiadau'r Eglwys Gristnogol ac ymgysylltu â hwy drwy gydbwysedd o astudiaethau academaidd a gwaith ymarferol. Bydd y cwrs cyffrous hwn yn rhoi sylfaen i chi mewn diwinyddiaeth ymarferol ac astudiaethau Beiblaidd, ac yna'n caniatáu chi i deilwra eich astudiaethau i'ch diddordebau neu gefndir- boed yn ddiwinyddiaeth ymarferol, athrawiaeth, Hen Destament, Testament Newydd, ysbrydoldeb, cenhadaeth neu hanes yr eglwys. O fewn eich pynciau dewisol, bydd yna ryddid gennych i ganolbwyntio ar eich meysydd penodol o ddiddordeb neu seilio eich astudiaethau ar eich sefyllfa bersonol neu ardal leol.

Pa bynnag beth yw eich cefndir bydd y rhaglen yn eich annog i ddeall, trafod yn feirniadol, a datblygu yn eich disgyblaeth ddyddiol, ac eich ymarfer gweinidogaethol drwy astudiaethau a myfyrio.

GRADD MEISTR UNIGRYW

Mae ein rhaglen yn gyfoes ac yn ddiddorol: Mae MA yn ymwneud â'r byd sydd ohoni, gan gydnabod y daw ein ffydd yn fyw wrth i ni ei rhoi ar waith yn ein bywydau bob dydd, yn arbennig wrth i ni ymgysylltu â ffordd gyfoes o feddwl, diwylliant ac ysgolheictod.

Mae ein rhaglen yn hyblyg a chyfleus: Mae'r radd wedi'i hanelu at ddiwallu eich anghenion. Caiff y modiwlau eu haddysgu ar ffurf sesiynau tiwtorial mewn grŵp bach, gan sicrhau eich bod yn cael sylw personol gan y staff academaidd, a nod yr amserlen yw peidio â bod yn ormod o faich i unigolion.

Mae tiwtoriaid ein rhaglen yn uchel eu parch ac eciwmenaidd: Mae MTh yn canolbwyntio ar arbenigedd a gydnabyddir yn rhyngwladol. Mae eich tiwtoriaid yn arbenigo mewn gwahanol feysydd diwinyddol a Beiblaidd ac ystyrir bod eu gwaith academaidd yn sensitif i faterion cyfoes sy'n ymwneud â'r weinidogaeth a materion cyhoeddus.

Y TÎM ADDYSGU

Parch Athro Jeremy Duff yw Pennaeth Athrofa Padarn Sant. Mae'n angerddol ynglŷn â ffurfiant a chenhadaeth. Arbenigeddau Jeremy yw Astudiaethau'r Testament Newydd a Datblygu Arweinyddiaeth. Mae ganddo restr gyhoeddiadau helaeth. Cyn hynny bu'n ficer cymuned drefol ddifreintiedig ger Lerpwl.

Parch Ganon Ddr Trystan Owain Hughes sy'n arwain y Rhaglen MA Diwinyddiaeth, Gweinidogaeth, a Chenhadaeth ym Mhadarn Sant. Mae ef wedi cyhoeddi'n eang ar hanes yr eglwys a diwinyddiaeth gan gynnwys 7 llyfr a gyhoeddwyd gan SPCK BRF, a UWP. Mae e hefyd yn Ganon Ddiwinydd yn Eglwys Gadeiriol Llandaf.

Y Parch Ddr Manon James yw Deon Hyfforddiant Cychwynnol Gweinidogion yn Athrofa Padarn Sant. Mae ei diddordebau ymchwil yn cynnwys Diwinyddiaeth Gyd-destunol Cymru, Diwinyddiaeth Ffeministaidd, a defnyddio Barddoniaeth mewn Ymchwil Ddiwinyddol. Cyhoeddwyd PhD Manon gan Wasg Prifysgol Cymru fel 'Women, Identity and Religion in Wales: Theology, Poetry, Story'

Y Parch Ddr Julian Raffay yw Cyfarwyddwr Astudiaethau Caplaniaeth yr Athrofa. Mae wedi gweithio'n helaeth mewn caplaniaeth iechyd meddwl ac mae ganddo brofiad sylweddol o weinidogaeth blwyf. Bu'n gwasanaethu'n ddiweddar fel caplan ymchwil. Mae Julian wedi gwasanaethu mewn gwasanaethau Diogel lawn. Mae wedi cyhoeddi'n eang. Lluniodd ei draethawd ar 'Y Berthynas rhwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Chymunedau Ffydd'. Mae diddordebau academaidd Julian yn cynnwys moeseg, cyd-gynhyrchu, a theori gadarn.

Parch Ddr Jordan Hillebert yw Cyfarwyddwr Ffuriant Diwtor Athrofa Padarn Sant. Cwblhaodd ei PhD yn St Andrews. Ei bynciau arbenigol yw athrawiaeth a moeseg Gristnogol. Mae gan Jordan hanes cyhoeddi helaeth.

Y Dr Charles Shepherd yw Cyfarwyddwr Strategaeth Ddysgu, Adnoddau a Thechnoleg Athrofa Padarn Sant. Mae'n ysgolhaig Beiblaidd sydd â PhD gan Brifysgol Durham. Ei arbenigedd yw Diwinyddiaeth yr Hen Destament ac Esboniadaeth Ddiwinyddol. Mae gan Charlie gryn brofiad yn ieithoedd y Beibl.

SUT GYFLWYNIR Y CWRS?

Mae'r MA Diwinyddiaeth, Cenhadaeth a Gweinidogaeth yn rhaglen ôl-radd a ddilysir gan Brifysgol Durham ac a gyflwynir drwy Athrofa Padarn Sant. Cynlluniwyd y rhaglen hyblyg hon i gyd-fynd â bywyd prysur y rhai sy'n gweithio, megis gweithwyr llewg a gweinidogion ordeiniedig. Mae'n gwrs rhan-amser (dwy flynedd ac yna traethawd hir) sy'n cael ei rhannu rhwng y cyfnodau preswyl tri diwrnod, darpariaeth ar-lein a chysiau diwrnod. Bydd myfyrwyr yn mwynhau strategaethau addysgu heriol a rhyngweithiol.

Bydd dau o'r cyfnodau preswyl yn cael i gynnal Dydd Llun i Ddydd Mercher ar ein safle yng Nghaerdydd, lle ceir llyfrgell eang ac ystafelloedd addysgu priodol. Mae croeso i chi addoli ochr yn ochr ag aelodau ein coleg diwinyddol.

Mae'n bosib ac yn cael ei argymhell eich bod yn cyrraedd nos Sul i gael amser ychwanegol er mwyn cael mynediad at diwtoriaid a'r llyfrgell.

GOFYNION MYNEDIAD

Mae ein rhaglen Meistr yn addas i raddedigion mewn Diwinyddiaeth neu Astudiaethau Crefyddol er gellir ystyried profiad sylweddol gweinidogaethol. Er ei bod wedi'i hanelu'n bennaf at bobl sy'n gweithio yn y weinidogaeth Gristnogol (pobl lewg neu ordeiniedig), mae'r un mor werthfawr i aelodau o rai grwpiau proffesiynol eraill (e.e. meddygaeth, gwaith cymdeithasol, addysgu), yn ogystal ag unigolion sydd â gradd israddedig mewn diwinyddiaeth neu astudiaethau crefyddol ac sy'n awyddus i ehangu eu dysgu.

Y MODIWLAU BYDDWCH YN EU HASTUDIO

I gwblhau'r rhaglen Meistr byddwch angen cwblhau 180 o gredydau. Bydd hyn yn cynnwys chwech o fodiwlau a addysgir. (120 credyd) ac os yn llwyddiannus byddwch yn symud ymlaen at ysgrifennu traethawd hir (60 credyd)

Y modiwlau canlynol sydd ar y cwricwlwm. Bydd yn ofynnol i chi **gwblhau'r tri modiwl cyntaf (blwyddyn 1)**, lle byddwch wedyn yn **dewis 3 modiwl arall (blwyddyn 2)**, gyda'r aseiniadau yn cael ei deilwra i'ch diddordeb neu sefyllfa drwy ymgynghori â'ch Tiwtor.

Blwyddyn 1 Postgraduate Certificate	Blwyddyn 2 Postgraduate Diploma	Blwyddyn 3 MA
Ymchwil a Myfyrio Diwinyddiaeth Ynarferol Y Beibl a'r Ffydd Gristnogol	Astudiaethau Uwch o Ffigyrau Cristnogol Astudiaethau Uwch o Destun Diwinyddol Astudiaethau Beiblaidd Uwch Prosiect Ddysgu Annibynnol	Traethawd hir 15,000 o eiriau

Y BROSES YMGEISIO

Fe ddilysir yr MA Diwinyddiaeth, Cenhadaeth a Gweinidogaeth gan Brifysgol Durham sy'n rhan o brifysgolion grŵp Russell. Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 31 Gorffennaf i ddechrau yn mis Medi.

MWY O WYBODAETH

Cysylltwch â **Tina Franklin, Cydlynnydd Cofrestru a Rhaglenni Ôl-radd:**

Ar: tina.franklin@stpadarns.ac.uk **Ffôn:** 02920 838009

Neu ewch at: www.stpadarns.ac.uk/cy/MADiwinyddiaeth



St Padarn's Institute is part of the Representative Body of the Church in Wales
Registered Charity Number 1142813